# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 4

NEWIDIADAU MEWN TREFNIADAU GWEITHREDIAETH

## PENNOD 3

ATODOL

### 52 Y pwerau sy'n caniatáu amrywio pwerau gweithrediaeth

Ni chaniateir i awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth amrywio'r trefniadau hynny neu roi trefniadau yn lle'r trefniadau hynny ac eithrio fel a ddarperir yn—

(a) Pennod 1 neu 2 o'r Rhan hon, neu
(b) rheoliadau o dan adran 34, 35 neu 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 52 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(a)**

### 53 Ffurfiau ar weithrediaeth

At ddibenion y Rhan hon, mae pob un o'r canlynol yn ffurf ar weithrediaeth—

(a) gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru);
(b) gweithrediaeth maer a chabinet.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 53 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(a)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/07/2011.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, PENNOD 3. (See end of Document for details)*

## 54 Darpariaeth ganlyniadol etc

(1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 30 (gweithredu gwahanol drefniadau gweithrediaeth).

(3) O flaen adran 33A mewnosoder—

> “**33ZA Wales: changing governance arrangements**
>
> For provision about changing the governance arrangements of local authorities in Wales, see Part 4 of the Local Government (Wales) Measure 2011.”.

(4) Yn adran 45 (darpariaethau mewn cysylltiad â refferenda), yn is-adran (9), ar ôl “this Part” mewnosoder “or under section 40 of the Local Government (Wales) Measure 2011”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 54 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/07/2011.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, PENNOD 3.